

Apwyntiadau Dilynol wedi'u Cychwyn gan Gleifion (ADCG)

Mae'r gwasanaeth Gynaecoleg wedi datblygu'r Gwasanaeth Apwyntiadau Dilynol wedi'u Cychwyn gan Gleifion, sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer cleifion sy'n rheoli eu cyflwr meddygol yn dda ond y gallai eu cyflwr fod wedi brigo i'r wyneb eto. Bydd y gwasanaeth hwn yn lleihau ymweliadau diangen ag ysbytai, yn lleihau amseroedd aros i gleifion ac yn rhyddhau'r timau clinigol i weld mwy o gleifion yn brydlon.

Beth yw 'Apwyntiadau dilynol wedi'u cychwyn gan gleifion'?

Efallai y gwelwch gyfeiriadau at hyn fel 'ADCG' neu 'PIFU' yn Saesneg. Mae Gwasanaeth Apwyntiadau Dilynol wedi'u Cychwyn gan Gleifion yn rhoi'r rheolaeth i chi. Gallwch wneud apwyntiad i'n gweld os oes gennych unrhyw bryderon neu ofidiau am eich cyflwr yn hytrach nag ymweld â'r clinig yn rheolaidd. Mae ymchwil wedi dangos nad yw apwyntiadau dilynol rheolaidd ar sail claf allanol yn helpu i atal eich cyflwr rhag dychwelyd na darganfod problemau newydd. Mewn gwirionedd, mae llawer o bobl yn teimlo bod apwyntiadau dilynol â'r ysbyty yn achosi llawer o bryder diangen. Nid oes angen apwyntiadau dilynol rheolaidd yn yr ysbyty i lawer o gleifion sydd â chyflyrau hirdymor. Mae rhai cleifion yn mynegi pryder ynghylch colli cysylltiad rheolaidd â'r ysbyty. Mae gan bawb deimladau gwahanol pan nad oes angen eu gweld yn rheolaidd bellach gan eu tîm meddygol. Am bob pryder arall, neu os ydych chi'n teimlo'n sâl, eich meddyg teulu yw eich pwynt cyswllt cyntaf o hyd.

Sut mae trefnu apwyntiad dilynol wedi'i gychwyn gan glaf?

Mae'r gwasanaeth yn gyflym ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Anfonwch e-bost i:- ABB.GynaeSOS@wales.nhs.uk a byddwn ni'n trefnu amser i ymarferydd nyrsio eich ffonio. Nodwch na all yr ysgrifenyddion roi unrhyw gyngor clinigol i chi. Cofiwch, mae'n bwysig eich bod chi ar gael ar gyfer eich apwyntiad. Os nad ydych yn gallu bod yn bresennol, dywedwch wrthym o flaen llaw fel y gallwn geisio rhoi eich apwyntiad i rywun arall. Gallai methu â gwneud hynny arwain at gael eich cyfeirio'n ôl at eich meddyg teulu.

Eich cynllun ADCG:

Label Adnabod Claf

Nod eich triniaeth

Cysylltwch â ni os cewch unrhyw un neu rai o'r symptomau canlynol

1.

2.

3.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**